Apêl Undeb yr Annibynwyr Cymraeg 2008/9

Gwybodaeth am y cefndir

Apêl De Affrica

Rhagarweiniad

De Affrica sydd â'r boblogaeth fwyaf o wledydd deheudir y cyfandir, rhyw 47 miliwn. Cristnogaeth yw'r brif grefydd ac y mae nifer cynyddol o Eglwysi Affricanaidd Annibynnol. Y mae 11 iaith swyddogol – Saesneg, Afrikaans a naw iaith Affricanaidd. Hi sydd â'r economi mwyaf ar gyfandir Affrica.

Mae 14 o flynyddoedd ers etholiadau democrataidd cyntaf De Affrica a bu newidiadau mawr a sawl llwyddiant ers 1994. Er hynny, nid yw'r effeithiau positif hyn eto wedi cyrraedd y mwyafrif o bobl De Affrica. Er gwaethaf yr adnoddau sydd ar gael o fewn y wlad, mae'r rhan fwyaf o'r boblogaeth yn byw mewn tlodi, ansicrwydd ac ar y cyrion. Mae llawer heb ddŵr digonol, heb dai a heb drydan. Gadawodd etifeddiaeth apartheid y mwyafrif o bobl dduon De Affrica heb addysg ddigonol ac ychydig o adnoddau a sgiliau. Mae bron i 40% o'r boblogaeth (y rhan fwyaf yn groenddu) yn byw ar £1 y dydd neu lai ac y mae mwy nag 20 miliwn – mwy na phoblogaeth gyfan unrhyw wlad arall yn Neheudir Affrica – yn byw mewn tlodi. Mae dwy gymdeithas ac economi yn cyd-redeg yn Ne Affrica – un yn gymdeithas ac economi ddatblygedig gyda safon byw debyg i rai o wledydd cyfoethocaf y byd. Mae'r llall yn gymdeithas heb ddatblygu, yn dlawd ac wedi ei heithrio, gyda safon byw debyg i rai o wledydd tlotaf y byd.

Y mae gan Dde Affrica'r nifer mwyaf o bobl y gwyddom eu bod yn HIV positif yn y byd. Mae mwy na phum miliwn o bobl yno yn HIV positif ac y mae cannoedd o bobl yn marw bob dydd o afiechydon sy'n deillio o HIV.

Y mae Cymorth Cristnogol wedi gweithio yn Ne Affrica ers canol y 70au ac y mae erioed wedi bod â chysylltiad agos â'r eglwysi yno. Mae llawer o'r mudiadau partner y mae yn eu cefnogi yn rhai â chefndir eglwysig a gwelir rhai yn adnoddau'r apêl. Fe wnaeth rhai o eglwysi De Affrica a'u harweinwyr carismataidd chwarae rhan allweddol yn yr ymdrech i ddymchwel sgandal a melltith apartheid. Yn awr mae angen iddynt chwarae eu rhan i ddymchwel sgandal a melltith tlodi a HIV.

Pum peth i gofio...

- Y ddwy broblem fawr yw HIV a chyfiawnder economaidd
- Mae 20 miliwn yn Ne Affrica yn byw ar lai na £1 y dydd.
- Mae bron hanner y boblogaeth o dan 20 oed, a thraean o dan 15.
- Mae mwy o bobl HIV positif yn Ne Affrica nag yn unrhyw wlad arall yn y byd.
- Bydd eich rhoddion chi yn gwneud gwahaniaeth!

cymorth cristnogol Credwn mewn byw cyn marw

Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

Apêl De Affrica

Ein Partneriaid Apêl

Association for Rural Advancement (AFRA) – yn gweithio yn Kwa Zulu Natal yn cefnogi pobl cefn gwlad sydd heb dir a ffermwyr sydd dan fygythiad o gael eu taflu oddi ar eu tir.

KwaMashu Community Advancement Project (KCAP) – yn gweithio gyda phobl ifanc difreintiedig ar gyrion Durban, gan roi iddynt y cyfle i ddysgu sgiliau megis drama, dawns, cerddoriaeth a ffotograffiaeth.

Pietermaritzburg Association for Christian Social Awareness (PACSA) – yn gweithio i ysbrydoli Cristnogion a'u hybu i weithio dros hawliau dynol a datblygiad cynaliadwy trwy ymchwil, addysg, myfyrdod ysbrydol a gweithredu.

Thandanani Children's Foundation (TCF) – yn cefnogi plant amddifad a phlant bregus eraill yn ardal Pietermaritzburg fel bod ganddynt fwyd, cysgod, addysg a chefnogaeth emosiynol.

Wola Nani – yn gweithio yn Cape Town a'r maestrefi cyfagos, gan roi cefnogaeth arbennig i wragedd sydd yn HIV-positif a'u plant, trwy ddarparu cwnsela a gofal.



Y problemau mawr

Digartrefedd a dim hawl ar dir: Yn Ne Affrica y ceir y gwahaniaeth mwyaf yn y byd rhwng y tlawd a'r cyfoethog . Wedi blynyddoedd maith o lywodraeth drefedigaethol ac apartheid, lleiafrif cyfoethog sydd yn dal i fod yn berchen ar y rhan fwyaf o'r tir. Does dim tir o gwbwl gan lawer iawn o'r bobl dlawd. Mae'r miloedd sydd yn byw fel tenantiaid ar dir pobl eraill yn agored i gael eu cam-drin a'u taflu oddi ar y tir os yw'r perchennog yn ddidostur.

HIV/AIDS: Mae mwy nag un o bob pum person yn HIV positif ac y mae'r firws wedi gadael mwy na miliwn o blant yn amddifad. Mae llawer o neiniau a chwiorydd hŷn yn eu harddegau yn awr yn cymryd y cyfrifoldeb o edrych ar eu hôl.

Tlodi, trais a diweithdra: Mae maestrefi De Affrica yn fyd hollol wahanol i'r dinasoedd modern gerllaw. Yma mae dinasyddion tlotaf y wlad wedi eu gwasgu i mewn i ghettoes erchyll yn byw mewn cytiau, gyda phrinder gwaith a thor-cyfraith uchel.

Cymodi: Mae creulondeb, trais ac anghyfiawnder blynyddoedd apartheid wedi gadael creithiau dyfnion a fydd yn cymryd amser hir i'w gwella.

Diwrnodau arbennig

Mae'n bosib yr hoffech chi ddefnyddio un neu fwy o ddiwrnodau arbennig gwyliau De Affrica fel diwrnod arbennig i'r apêl yn eich eglwys, er enghraifft:

Diwrnod rhyddhau Nelson Mandela o'r carchar (1990)	11 Chwefror
Diwrnod Hawliau Dynol (er cof am drychineb Sharpeville a ddigwyddodd ar y diwrnod hwn yn 1960)	21 Mawrth
Diwrnod Rhyddid (i gofio am yr etholiad democrataidd cyntaf ar y dydd hwn yn 1994)	27 Ebrill
Diwrnod y Gweithwyr	1af Mai
Diwrnod yr Ifanc	16 Mehefin
Pen-blwydd Nelson Mandela	18 Gorffennaf
Diwrnod Cenedlaethol y Gwragedd	9 Awst
Diwrnod Treftadaeth (Diwrnod i bob un o Dde Affrica i ddathlu eu treftadaeth ddiwylliannol. Bydd llawer yn cynnal barbeciw anffurfiol neu braai ar y diwrnod yma)	24 Medi
Pen-blwydd Desmond Tutu	7 Hydref
Diwrnod Cymodi	16 Rhagfyr

cymorth cristnogol Credwn mewn byw cyn marw

Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

Rhifau elusennau cofrestredig y DG: Cymorth Cristnogol 1105851, Undeb yr Annibynwyr Cymraeg 248076.
Rhif cwmni Cymorth Cristnogol 5171525